GORCHYMYN GORCHYMYN CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR (GWAHARDD A CHYFYNGU AROS A LLWYTHO A MANNAU PARCIO)(GORFODI SIFIL) 2013 – DIWYGIAD RHIF 20 2022

HYSBYSIR DRWY HYN fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (y cyfeirir ato yma wedi hyn fel "y Cyngor") sef yr Awdurdod Priffyrdd ar gyfer Porth-cawl wedi gwneud y Gorchymyn uchod (y cyfeirir ato yma wedi hyn fel "**y Gorchymyn Parhaol**"), drwy arfer ei bwerau dan Adrannau 1, 2, 3, 4, 32, 35, 124 a Rhan IV o Atodlen 9 i Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 ("y Ddeddf") a Deddf Rheoli Traffig 2004 a phob pŵer galluogi arall ac ar ôl ymgynghori â'r Prif Swyddog Heddlu yn unol â Rhan III o Atodlen 9 i'r Ddeddf, sef Gorchymyn sydd â'i effaith fel a ganlyn:-

1. Gwneud y darpariaethau yng NGORCHYMYN ARBROFOL GORCHYMYN CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR (GWAHARDD A CHYFYNGU AROS A LLWYTHO A MANNAU PARCIO)(GORFODI SIFIL) 2013 (DIWYGIAD RHIF 14A) 2021 (y cyfeirir ato yma wedi hyn fel "**y Gorchymyn Arbrofol**") fel y'i hamrywiwyd gan ORCHYMYN ARBROFOL GORCHYMYN CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR (GWAHARDD A CHYFYNGU AROS A LLWYTHO A MANNAU PARCIO)(GORFODI SIFIL) 2013 (DIWYGIAD RHIF 14A) DIWYGIAD RHIF 1 2022 (y cyfeirir ato yma wedi hyn fel "**y Gorchymyn Amrywio Arbrofol")** yn barhaol.

2. Dirymu'r Gorchymyn Arbrofol a'r Gorchymyn Amrywio Arbrofol.

Mae'r Gorchymyn Parhaol yn diwygio'r cyfyngiadau a ganlyn yng NGORCHYMYN CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR (GWAHARDD A CHYFYNGU AROS A LLWYTHO A MANNAU PARCIO)(GORFODI SIFIL) 2013 ("Gorchymyn 2013) fel y'i diwygiwyd, drwy ddirymu Planiau Gorchymyn CC11 DIW 0 (01/04/2013), BX9 DIW 0 (01/04/2013), CC12 DIW 0 (01/04/2013) ac CB12 DIW 0 (01/04/2013); a mewnosod Planiau Gorchymyn diwygiedig: CC11 DIW 1 (20/09/2021),BX9 DIW 1 (10/02/2021), CC12 DIW 1 (20/09/2021) ac CB12 DIW 1 (10/02/2021) y manylir ar eu heffaith yn atodlenni 1-6 isod.

Mae copi o'r dogfennau a adneuwyd gan gynnwys y Gorchmynion a'r Planiau ar gael naill ai drwy gysylltu â traffictransportation@bridgend.gov.uk neu drwy ffonio'r Ganolfan Gwasanaethau i Gwsmeriaid, Ffôn**:** 01656 643643 (dyfynnwch y cyfeirnod cyfreithiol TRA001-1118/JPD) neu maent ar gael yn rhad ac am ddim yn Llyfrgell Porth-cawl, Church Place, Porth-cawl, CF36 3AG yn ystod yr oriau a ganlyn: dydd Llun 9.15am - 1pm a 2pm - 6pm, dydd Mawrth 9.15am - 1pm a 2pm - 5pm, dydd Mercher 9.15am -1pm, dydd Iau 9.15am - 1pm a 2pm - 5pm, dydd Gwener 9.15am - 1pm a 2pm - 5pm, dydd Sadwrn 9.15am - 1pm a 2pm - 5pm neu gellir eu harchwilio ar-lein yn https://www.bridgend.gov.uk/cy/busnes/trwyddedu/hysbysiadau-cyfreithiol-a-gorchmynion/.

Cafodd y Gorchymyn ei wneud ar 23/11/2022 a daw i rym ar **12/12/2022**. Os bydd unrhyw berson yn dymuno amau dilysrwydd y Gorchymyn Arbrofol neu ddilysrwydd unrhyw ddarpariaeth a geir ynddo ar y sail nad yw o fewn y pwerau a roddir gan y Ddeddf neu ar y sail na chydymffurfiwyd ag unrhyw ofyniad yn y Ddeddf neu mewn unrhyw offeryn a wnaed odani, caiff y person hwnnw wneud cais at y diben hwnnw o fewn chwe wythnos ar ôl y dyddiad y gwnaed y Gorchymyn i'r Uchel Lys.

Os yw'n anodd ichi ymateb mewn ysgrifen, neu os oes arnoch angen yr hysbysiad mewn fformat arall, er enghraifft print brasach, sain, braille neu ffacs, cysylltwch â'r Adran Gyfreithiol yn y cyfeiriad isod neu drwy'r Ganolfan Gwasanaethau i Gwsmeriaid, Ffôn: 01656 643643, cyfeirnod cyfreithiol TRA001-1118 /JPD.

Mae’r Cyngor yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg, bydd unrhyw ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn cael ei hateb yn Gymraeg ac ni fydd cyfathrebu yn Gymraeg yn arwain at oedi wrth ymateb.

ATODLEN 1
DIM STOPIO UNRHYW BRYD AC EITHRIO’R TRÊN FFORDD
(i) Ffordd Fynediad Rest Bay – Ar ei hochr ddwyreiniol tua'r de 93m (102 llath) o'i chyffordd ag allanfa Maes Parcio Rest Bay am bellter o ryw 30 metr (32.5 llath).

ATODLEN 2
DIM STOPIO UNRHYW BRYD AC EITHRIO’R TRÊN FFORDD A BYSIAU
(i) Mary Street – Ar ei hochr orllewinol tua'r gogledd 22.5m (24.5 llath) o'i chyffordd â’r Esplanade am bellter o ryw 30 metr (32.5 llath).
(ii) Esplanade – Ar ei ochr ddeheuol tua'r gorllewin 31m (34 llath) o bwynt yn yr un llinell â chyffordd Picton Avenue am bellter o ryw 30 metr (32.5 llath).

ATODLEN 3
DIM STOPIO AC EITHRIO’R TRÊN FFORDD RHWNG 9AM A 9PM
(i) Eastern Promenade – Ar ei ochr ogleddol tua'r dwyrain 28.3m (30 llath) o'i gyffordd â’r Portway am bellter o ryw 30 metr (32.5 llath).
(ii) Eastern Promenade – Ar ei ochr ddeheuol tua'r dwyrain 43m (47 llath) o'i gyffordd â'r Portway am bellter o ryw 30 metr (32.5 llath).

ATODLEN 4
DIM STOPIO AC EITHRIO’R TRÊN FFORDD RHWNG 10AM A 7PM
(i) Eastern Promenade – Ar ei ochr ddwyreiniol tua'r de 171.5m (187.5 llath) o'i gyffordd â New Road am bellter o ryw 30 metr (32.5 llath).

ATODLEN 5
(DIRYMU CLIRFFORDD)
(i) Ffordd Fynediad Rest Bay – Ar ei hochr ddwyreiniol tua'r de 93m (102 llath) o'i chyffordd ag allanfa Maes Parcio Rest Bay am bellter o ryw 30 metr (32.5 llath).

ATODLEN 6
(DIRYMU DIM AROS UNRHYW BRYD)
(i) Esplanade – Ar ei ochr ddeheuol tua'r gorllewin 31m (34 llath) o bwynt yn yr un llinell â chyffordd Picton Avenue am bellter o ryw 30 metr (32.5 llath).

Dyddiedig:02/12/2022

K Watson, Prif Swyddog, Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio, AD a Pholisi Corfforaethol – Cyfarwyddiaeth y Prif Weithredwr, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr CF31 4WB.
K Watson, Chief Officer Legal and Regulatory Services, Human Resources and Corporate Policy – Chief Executive’s Directorate, Bridgend County Borough Council, Civic Offices, Angel Street, Bridgend CF31 4WB.